CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed CHWEFROR 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. W R Parry (Cadeirydd) Cyng. Mrs L Roberts (Is-Gadeiryddes) Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, J E Lewis, R G Parry, D T Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. G Jones, Miss B Owen, R R Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 21ain IONAWR 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. J E Lewis eilio Cyng. R G Parry.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. FPL/2024/236. Cais llawn ar gyfer codi annedd a garej arwahan ynghyd a chreu mynedfa ar dir tu ol i:-
   Tyn Coed, Bodffordd.
   Caniatad.
   Ni ellir y Cyngor Cymdeithas dderbyn, am ei bod wedi gwrthwynebu.
   Lon yn beryglus i fynedfa newydd, oherwydd ceir yn barcio yr ochr arall i`r lon. Yn amharu a`r Cymdogion. Y math o dy, dylir fod yn lawr sengl. Ac wedi ei gyfeirio i`r Cymdogion.
   Mae yn amlwg nad ydyw y Priffyrdd hefo dim llawer o synnwyr o berygl.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Cyfarwyddwr Addysg Marc Berw Hughes Ymgysylltiad ol - 16.
   Gan Rhanddeiliad hyd 21ain Chwefor i ymateb i`r ymgysylltiad.
   www.ynysmon.llyw.cymru/addysg-ol-16.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth.

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.
   Yn cael ei lansio bydd yngynghoriad deuddeg wythnos. Bydd cyfle i Breswylwyr Busnesau ac Ymelwyr i siapio dyfodol teithio yn y rhanbarth.
   Dogfennau ar gael:- https://northwalesregionaltranasportplan.virtual-engage.com/
   Ymgynghoriad tan 14ain Ebrill 2025.
   Derbyniwyd y wybodaeth gan y Cyngor.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Aaron Cadwaladr Evans a benodwyd gan y Cyngor Sir fel Cyfarwyddwr Addysg a Phobl Ifanc newydd. Wedi gweithio fel uwch reolwr (y sector uwchradd) yr awdurdod ers Ionawr 2020. Bydd ei swydd yn cychwyn yn ystod y mis.
   Cafodd ei Addysg yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, cy graddio mewn Hanes o Brifysgol Bangor. Symud ymlaen wedyn i gwblhau ei dystysgrif ol Raddedig mewn Addysg (Uwchradd) ym Mrifysgol Aberystwyth.
   Derbyn y wybodaeth a dymuno y gorau iddo.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Rheilffordd Canolog Mon Cyf - D I Rogers.
   Trosglwyddo Cyfrifoldeb am lein leol Gaerwen, Llangefni ac Amlwch.
   Unig bwrpas y Gorchymyn Trosglwyddo, yw trosglwyddo cyfrfioldebau statudol o NR i RhCMC.
   Dim caniatad am ddatblygiad newydd gan fod Rheilffordd yma yn barod.
   Ymholiadau:-
   Rheilffordd Ganolog Mon Cyf. Yr Hen Stesion Heddlu, Lon Caergybi, Gaerwen, Ynys Mon. LL60 6BL. e-bost i daverogers@leinamlwch.co.uk.
   Y Cyngor Cymdeithas yn gefnogol iawn, ac wedi bod ers amser.

7. Rod King. Sefydlwr a Cadeirydd - 20`s Plenty for US CIC.
   Cadw Strydoedd y Gymuned yn Saff yn Cyngor Cymdeithas Bodffordd.
   Gwybodaeth sut i herio ein Awdurdod Priffyrdd i gael y gosodiad yn ol i 30mya.
   9 mis cyn gosodiad y 20mya fe oedd 39% (489) mwy o achosiaeth ar lonydd 20mya / 30mya nag y rhai hynny yr un misoedd ar ol y diffyg 20mya gael ei gosod.
   https://www.20splenty.org/w_faq11
   Trafodwyd gan y Cyngor a penderfynwyd derbyn y wybodaeth a`i adael ar y bwrdd. (Cadw mewn golwg)

8. Un Llais Cymru. - Tracy Gilmartin.
   James Davies. Prif Weithredwr Cymorth Cynllunio Cymru.
   Digwyddiadau ar y Cyd Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru 27 Mawrth 10am - 1.30pm.
   O bell trwy Zoom. Deall y system Gynllunio - ateb eich cwestiynau.
   Cyngor yn derbyn y wybodaeth gyda ychydig iawn o sylwadau.

9. Prosiect Maen Hir.
   Diweddariad ar yr ymgynghoriad ac eglurhad ynghylch ffotogyfosodiadau PEIR ar gyfer golygfannau cynrychioladol, penodol ac egluron.
   Dyddiad cau 14eg Mawrth 2025.
   E-bost: maenhir@lightssourcebp.com
   Post: Rhadbost Maen Hir Project (Nid oes angen stamp)
   Ffon. Cymraeg - 0808 175 6663. Saesneg - 0808 175 6375.
   Mae y Cyngor yn hollol wrthwynebu y Cynllun. Nid fydd tir Amaethyddiaeth ar ol ar y Sir. Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng D T Roberts.

10. Gair o ddiolch gan Elusen Ambwilans Awyr Cymru am ei rhodd o £100.

RHODDION.

11. Dim.

PLWYFOL.

12. Cafwyd cwyn fod Baw Cwn ar y lon o Pen y Bryn tuag at y Garej, Llynfaes. Y Cyngor i weithredu.

13. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Diolchwyd iddi am ei gwaith da.

MATERION ARIANNOL.

14. Cyfrif Rhedegol. £24,106.36 (Agor Bedd M Williams Jones £400) (Preseb 3 £4,333.34)

    Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,510.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

15. Clerc £470.00.

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. R G Parry.

D Owen (Clerc)